



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol 2020-2040

Papur Esboniadol – Datblygiad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn y dyfodol

Rhagfyr 2019

Pam ydym ni wedi cyhoeddi'r papurau esboniadol hyn?

Yn ystod yr ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) Drafft, awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylid cael mwy o fanylion yn dangos sut mae'r FfDC wedi cael ei baratoi. I gynorthwyo rhanddeiliaid rydym wedi llunio casgliad o bapurau esboniadol er mwyn dangos y dystiolaeth sy'n ategu'r FfDC drafft. Mae'r papurau hyn yn cynnwys:

- Y Strategaeth Ofodol
- Asesiadau'r FfDC
- Datblygiad y FfDC yn y dyfodol
- Y Rhanbarthau
- Ardaloedd Gwledig
- Yr Angen am Dai
- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a Phorthladdoedd
- Casgliad o dystiolaeth

Beth yw'r ddogfen hon?

Cafodd y papur esboniadol hwn ei baratoi i gynorthwyo darllenwyr y FfDC drafft i ddeall datblygiad disgwylidig y FfDC yn y dyfodol. Mae'n tynnu sylw at y ffactorau allweddol a fydd yn llywio'r adolygiad o'r FfDC.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg. / This document is also available in English.

1. Caiff y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol cyntaf (FfDC1) ei gyhoeddi yn ystod yr hydref 2020 a bydd yn cynnwys y cyfnod 2020-2040. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r FfDC a dylent gyhoeddi FfDC wedi'i adolygu o fewn 5 mlynedd iddo gael ei gyhoeddi gyntaf. Bydd y broses hon yn parhau, gyda diweddariadau o fewn 5 mlynedd i'r diweddariad blaenorol.
2. Mae angen caniatáu hyblygrwydd i'r FfDC a dylai allu cynnwys polisïau llywodraethau dilynol. Bydd yr FfDC yn datblygu fel dogfen dros amser. Mae disgwyl i ganlyniadau'r FfDC a'r strategaeth ofodol, sy'n rhan o'r heriau ehangach o fewn y gymdeithas, barhau'n gyson, ond rhagwelir y bydd polisïau yn newid, fel ei fod yn adlewyrchu blaenoriaethau newidiol y Llywodraeth ac anghenion newidiol y system gynllunio. Dylai'r cysylltiadau rhwng y FfDC a dogfennau eraill, a dulliau cyflenwi eraill megis Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, gryfhau wrth i amserlenni gyd-fynd yn well.
3. Mae drafft cyntaf y FfDC, sy'n destun ymgynghoriad rhwng 7 Awst a 15 Tachwedd 2019, yn dod â'r strategaethau a'r blaenoriaethau gofodol sydd wedi'u cyhoeddi gan y Llywodraeth bresennol at ei gilydd. Mae hefyd yn adlewyrchu'r dystiolaeth sydd ar gael wrth ei baratoi. Mae'r FfDC wedi osgoi pennu polisïau neu uchelgeisiau ar faterion ble nad oes strategaeth gyffredinol bresennol na chymorth wedi'i gadarnhau gan y Llywodraeth.
4. *(Er enghraifft, nid yw'r FfDC yn cefnogi'n benodol brosiectau a fyddai'n gwella cysylltedd rhwng de a gogledd y wlad, gan nad oes strategaeth wedi'i chyhoeddi nac ymrwymiad gwaraiaent wedi'i gadarnhau i wella'r A470/A483 nac i sefydlu rhwydwaith reilffordd uniongyrchol yng Nghymru. Byddai unrhyw ymrwymiad o'r fath gan Lywodraeth Cymru yn cael ei adlewyrchu mewn diwygiadau o'r FfDC yn y dyfodol wrth i'r Cynllun Trafnidiaeth a'r FfDC ddatblygu).*
5. Ers i'r FfDC drafft gael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad mae'r cyhoeddiadau neu'r datganiadau pwysig canlynol wedi'u gwneud, ar faterion sydd o fewn cwrpas, neu sy'n gysylltiedig â'r FfDC:
 - *Rheilffordd i Gymru: yr achos dros ddatganoli* (llyw.cymru/rheilffordd-i-gymru-yr-achos-dros-ddatganoli?_ga) (24 Medi 2019)
 - *Sefydlu Is-adran Tir o fewn Llywodraeth Cymru* (llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-sefydlu-adran-tir-o-fewn-llywodraeth-cymru?) (24 Medi 2019)
 - *Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru: ein dull o weithio* (llyw.cymru/comisiwn-trafnidiaeth-de-ddwyrain-cymru-ein-dull-o-weithio?_ga) (16 Hydref 2019).
6. Rydym yn disgwyl i gyhoeddiadau pellach gael eu gwneud, a rhagor o ddogfennau gael eu cyhoeddi, ar faterion yn gysylltiedig â'r FfDC rhwng nawr a chyhoeddi'r FfDC cyntaf yn yr hydref 2020. Fodd bynnag, bydd unrhyw newidiadau i'r fersiwn drafft yn deillio yn bennaf o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y FfDC drafft ac o graffu ar y FfDC gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n debygol na fydd fawr o gyfle i newid yr FfDC i adlewyrchu cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru, gan y dylid parchu yr egwyddor o ystyried a chraffu ar gynigion (naill ai drwy ymgynghoriad cyhoeddus neu broses graffu'r Cynulliad).
7. Mae'r gofyniad i adolygu a diweddarau'r FfDC yn ddull hollbwysig o sicrhau bod y FfDC yn adlewyrchu strategaethau a blaenoriaethau diweddaraf Llywodraeth Cymru. Bydd ail fersiwn y FfDC (FfDC2) yn cael ei gyhoeddi yn 2025. Bydd y FfDC yn cael ei lunio gan bolisïau Llywodraeth nesaf Cymru (i'w sefydlu yn dilyn etholiad nesaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sydd i'w gynnal ddydd Iau 6 Mai 2021). Mae elfennau eraill yn yr adolygiad o'r FfDC yn debygol o gynnwys:

- Cynllun Buddsoddi Seilwaith Cymru newydd
 - Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol
 - Yr adroddiad cyntaf o Bwyllgor Seilwaith Cenedlaethol Cymru
 - Adroddiadau Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru
 - Strategaeth Trafnidiaeth Genedlaethol newydd
 - Y Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Rheoli Risg ac Erydu Arfordirol
 - Sefydlu Bargen Twf yn y Canolbarth
 - Datganiadau Ardal
 - Y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.
8. Mae'r rhestr hon, y gellid ychwanegu ati, o ddigwyddiadau, strategaethau a pholisïau yn debygol o ddylanwadu ar gynnwys a chwmpas y FfDC, a'r uchelgais sy'n bodoli ar gyfer datblygu yng Nghymru. Mae'n bosibl y bydd angen i bolisïau'r FfDC newydd helpu i sicrhau uchelgeisiau strategaethau newydd y Llywodraeth, ac ymateb i ddigwyddiadau megis y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Oherwydd hynny, gallai FfDC2 fod yn fwy uchelgeisiol ac yn fwy o faint na FfDC1. Byddai FfDC3, sydd i'w gyhoeddi erbyn 2030, yn cael ei ddylanwadu yn yr un modd gan ddigwyddiadau, strategaethau a pholisïau sy'n deillio o gyhoeddi FfDC2.
9. Yn ogystal ag effaith y strategaethau newydd ar y FfDC, mae'n rhaid cael effaith gyfatebol ble y bydd y FfDC yn dylanwadu ar y strategaethau. Drwy sefydlu'r FfDC, mae Llywodraeth Cymru wedi creu strategaeth ofodol a phlatfform ar gyfer darparu ar wahanol flaenoriaethau mewn dull integredig drwy'r system gynllunio.
10. *(Er enghraifft, bydd angen i'r Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol newydd gydnabod yr uchelgais ar gyfer datblygiadau dwysedd uwch mewn lleoliadau trefol hygyrch, cynaliadwy, sydd wedi'i amlinellu ym mholisi 1 y FfDC. Dylai'r strategaeth hyrwyddo cynlluniau neu fuddsoddiadau seilwaith sy'n cefnogi uchelgeisiau'r polisi).*
11. Bydd dylanwad y FfDC yn ymestyn y tu hwnt i strategaethau Llywodraeth Cymru; byddant yn cael effaith ar gynlluniau a rhaglenni'r sectorau preifat a'r trydydd sector. Er enghraifft, bydd y strategaeth ofodol yn dylanwadu ar Raglenni Rheoli Asedau darparwyr dŵr a charthffosiaeth, a chynlluniau'r Grid Cenedlaethol ar gyfer y rhwydwaith trosglwyddo trydan.
12. Effaith gyffredinol adolygu'r FfDC yw y bydd dros amser yn cyd-fynd yn well gyda blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac yn dylanwadu ar fuddsoddiadau datblygu ehangach ledled Cymru.